

Wrth iddynt ddod yn fwy medrus

Tipio a Rhedeg

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?



- Bydd y bowliwr yn taflu pêl dan ysgwydd at y batiwr a fydd yn burw'r bêl i le gwag, yn rhedeg i smotyn/marciwr ac yn a'n rhedeg yn ôl i'r smotyn batio
- Bydd y maeswr yn dal y bêl ac yn ei thafu at y bowliwr a fydd yn bowlio eto o'r smotyn bowlio
- Bydd yn rhaid i'r batiwr fod yn ôl ar y smotyn batio i dderbyn y bowliad nesaf. Os na fydd yn ôl, bydd y bowliwr yn bowlio beth bynnag. Os bydd yn burw'r 'wicedi', bydd y batiwr yn colli pwyntiau o'i sgôr

Geiriau allweddol

- Burw, taro, bowlio, maesu, taflu dros ysgwydd, rhagweld, cymryd risgiau
- Batiwr, maeswr, bowliwr, cymryd eu tro, cael tro, wicedi

Cyfleoedd i:

- anfon pêl trwy ei tharo/burw
- dewis y taflad mwyaf priodol
- adnabod rhai o'r egwyddorion sylfaenol sydd wrth wraidd gweithgareddau cystadleuol



Adnoddau

- Marcwyr dros dro
- Amrywiaeth o fatiau ag arwynebedd mawr
- Bagiau ffa/teganau ffa
- Amrywiaeth o beli o wahanol faint/gwedd
- Ystod o eitemau y gellir creu 'wicedi' ohonynt

Cwestiynau

- Wrth redeg, beth rydych chi'n ei wyllo i'ch helpu chi i benderfynu pryd i stopio a dychwelyd i'r smotyn batio?
- Wrth furw'r bêl, ble rydych chi am i'r bêl fynd?
- Wrth faesu, pryd dylech chi daflu dan ysgwydd a phryd dylech chi daflu dros ysgwydd?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn chwarae mewn grwpiau o dri gan gymryd eu tro i chwarae rôl y batiwr, y bowliwr a'r maeswr

Chwaraewch mewn 'gardd' fwy o faint

Anogwch y plant i gadw'r bêl yn eu 'gardd' eu hunain

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn anfon pêl trwy ei tharo/bwrw?
- Yn dewis y taflud mwyaf priodol?
- Yn adnabod rhai o'r egwyddorion sylfaenol sydd wrth wraidd gweithgareddau cystadleuol?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- archwilio defnyddio ystod o fatiau er mwyn dod o hyd i'r un y mae'n gallu ei ddefnyddio'n fwyaf llwyddiannus
- archwilio ystod o beli i'w taflu
- ymarfer sgiliau gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol – 'Taflu dros ysgwydd' a 'Taro gwrthrych'
- defnyddio ti i furw pêl

Gofynnwch i'r maeswr a'r bowliwr ymarfer taflu'r bêl, ei dal a'i bowlio at y wicedi

Anogwch:

- y plentyn i furw/taro ystod o beli
- y batiwr i redeg o un pwynt sefydlog i'r llall, a'r maeswyr i daflu at y pwyntiau
- y plant i ddatblygu system sgorio ar gyfer timau batio a maesu, gan gynnwys pwyntiau am furw targedau penodol

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus, dysgu cymryd eu tro, deall yr hyn sy'n deg ac yn annheg
- Datblygiad Mathemategol: Trin data – didoli a dosbarthu sefiau o wrthrychau gan ddefnyddio un neu ragor o feini prawf